



TASG: DEFYNYDDIA'R RHESTR ISOD I LABELU'R SGERBWD!

Darllena bennod 8 o Anatomi Kay am fwy o gymorth.



YPENGLOG
ASGWRN CEFN
CLAFICL
ASENNAU
ASGRWN UWCHELIN

CEUDOD PELFIG
FFEMWR
PELLEN BEN-GLIN
CRIMOG
FFIBWLA



Dysgwch fwy am y
CYHYRAU ym mhennod 9
o TI A DY GORFF!

FFAITH HWYL!

Yr asgwrn hiraf a chryfaf yn y corff dynol yw asgwrn y morddwyd, neu'r ffemwr fel mae meddygon yn ei alw. (Paid â drysu'r asgwrn hwn â'r lemwr, sy'n byw i fyny yn y coed ym Madagascar. Mae'n debyg na fyddet wedi eu drysu, mewn gwirionedd – maen nhw'n eithaf gwahanol.) Mae'r hen ffemwr hir yn dechrau wrth dy glun ac yn mynd yr holl ffordd i lawr at dy ben-glin. Yr asgwrn lleiaf yn dy gorff yw'r stapesau – efallai dy fod yn cofio cwrdd â nhw yn y bennod olaf – sydd yn cuddio'n ddwfn y tu mewn i dy clust. Dim ond maint gronyn o reis ydy'r asgwrn hwn, felly tria beidio'i golli!